**Atodiad 3 – Ffurflen Ymateb**

## Ymgynghoriad ar Bysgodfa Cramenogion y Glannau


Enw: **Colin Charman**

Cyfeiriad: **Tŷ Cambria, Caerdydd**

Sefydliad (os yn gymwys): **Cyfoeth Naturiol Cymru**

E-bost: **colin.charman@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**


Porthladd (os yn gymwys): **Ddim yn gymwys**

**Cwestiynau**:

1. Beth yw'ch rhan chi yn y bysgodfa cramenogion? Ticiwch ***un*** o'r blychau isod sy'n disgrifio orau'ch rhan chi ym Mhysgodfa Cramenogion Cymru:

   Pysgotwr Pysgod Cregyn Masnachol

   Pysgotwr Masnachol

   Pysgotwr Hamdden

   Corff sy'n cynrychioli'r diwydiant

   Amgylchedd/Cadwraeth ✓

   Arall

2. Ydych chi'n cytuno â phennu maint lleiaf ledled Cymru ar gyfer Cimychiaid (*Homarus gammarus*) o 90mm?

   **YDW**

3. Ydych chi'n cytuno â phennu maint lleiaf ledled Cymru ar gyfer Crancod Coch (*Cancer pagurus*) (y ddau ryw) o 140mm?

   **YDW**

4. Ydych chi'n cytuno â phennu maint lleiaf ledled Cymru ar gyfer Crancod Heglog (*Maia squinado*) (y ddau ryw) o 130mm?

   **YDW**

5. Ydych chi'n cytuno â phennu maint lleiaf ledled Cymru ar gyfer Cimychiaid Coch (*Palinurus elephas*) o 110mm?

   **YDW**

6. Ydych chi'n cytuno â diwygio'r ddeddfwriaeth a nodir yn y ddogfen hon sy'n ymwneud â Chrancod Llygatgoch?

   **YDW**

7. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ymestyn y rheolau ar feintiau lleiaf i ddeuddeng milltir forol, yn unol â ffiniau Môr Tiriogaethol Cymru?

   **YDW**

8. Ydych chi'n cytuno â'r cynnig i greu trosedd cludo, sy'n ei gwneud yn drosedd bod ag unrhyw un o'r rhywogaethau uchod yn eich meddiant sy'n llai na'r maint lleiaf a nodir uchod, hyd yn oed pe bai wedi'i dal **y tu allan** i Fôr Tiriogaethol Cymru (12 milltir forol)?

   **YDW**

9. Ydych chi'n cytuno â gwaharddiad ar bysgota am gimychesau wyog a gwahardd eu glanio, eu gwerthu a'u dinoethi; a gwahardd hefyd eu cynnig i'w gwerthu a bod â chimyches o'r fath yn eich meddiant? Byddai'n rhaid i chi felly daflu cimyches wyog yn ôl yn syth i'r môr.

   **YDW**

10. A oes gennych sylwadau ynghylch y cynigion a ddisgrifir yn Rhan II?

## Cyffredinol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i ystyried mesurau rheoli ychwanegol ar bysgodfeydd cramenogion Cymru mewn proses ymgynghori bellach. Fodd bynnag, cyn y caiff y mesurau ychwanegol hyn eu mabwysiadu, rhaid i'r sail dystiolaeth dros wneud hynny gael ei chyflwyno a'i harchwilio'n fanwl.

Ers nifer o flynyddoedd, mae rheolwyr pysgodfeydd wedi dibynnu ar y Maint Glanio Lleiaf i reoli pysgodfeydd cramenogion, heb lawer o reolaeth dros y niferoedd a laniwyd na faint o offer a ddefnyddiwyd i bysgota. O dan Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, mae rhwymedigaeth ar y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru, i reoli rhai pysgodfeydd pysgod cregyn penodol yn gynaliadwy ac yn unol â'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf erbyn 2020. Golyga hyn y gall rhai o bysgodfeydd pysgod cregyn y Deyrnas Unedig fod yn cael eu pysgota hyd yr eithaf, neu bron hyd yr eithaf, gan effeithio ar allu'r ecosystem i gynnal diwydiant pysgod cregyn hirdymor hyfyw.

I sicrhau'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf, bydd angen i Lywodraeth Cymru gasglu data stoc i lywio ei phenderfyniadau rheoli yn hytrach na dibynnu'n unig ar y math o fesurau technegol a gynigir yn yr ymgynghoriad pellach ar gramenogion. Yn ogystal â defnyddio data stoc cadarn, efallai y bydd angen rheoli rhai pysgodfeydd pysgod cregyn penodol

yn y dyfodol trwy gynlluniau trwyddedau cyfyngol a chyfyngiadau cwota er mwyn sicrhau'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf.

**Tyllau dianc**
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymchwilio i werth gwyddonol defnyddio tyllau dianc i ryddhau cramenogion sy'n rhy fach. Cefnogwn y gwaith o gasglu data gwyddonol gan Ysgol Gwyddorau Eigion Bangor i fod yn sail i'r fenter hon.

**Pysgota ysbrydion**
Byddai gorfodaeth i gynnwys deunyddiau hydradwy effeithiol rhad mewn cewyll pysgota yn fesur i'w groesawu er mwyn lleihau problem 'pysgota ysbrydion' yng Nghymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r gwaith o gasglu data gwyddonol gan Ysgol Gwyddorau Eigion Bangor i fod yn sail i'r fenter hon.

**Maint Glanio Mwyaf**
Gallai cyflwyno meintiau glanio mwyaf ar gyfer cimychiaid fod yn fuddiol gan y gallai gynyddu'r gallu magu trwy ganiatáu i gimychiaid mwy epilgar a mwy o faint aros yn y bysgodfa, gan gyfrannu at boblogaeth iachach. Mae'r un ddadl yn gymwys i gimychiaid coch sy'n cario wyau yn yr un ffordd ac felly mae'n dilyn y byddai cimychiaid coch hefyd yn elwa o bennu Maint Glanio Mwyaf. Bydd angen seilio'r mesurau hyn ar sail resymegol wyddonol glir.

**Deifio a rhwydo am gimychiaid coch**
Cyn ystyried rheoli'r mecanweithiau arfaethedig i bysgodfeydd ar gyfer cimychiaid coch, byddai'n ddoeth sicrhau bod y stoc yn codi'n ôl i lefelau'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf. Ni ddylid rhoi ystyriaeth i faint o'r stoc y gellir ei dal a sut nes bod y stoc mewn cyflwr hunangynhaliol.

**Cewyll anfasnachol**
Mewn pysgodfeydd a reolir yn unol â lefelau'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf, dylid rhoi ystyriaeth hefyd i faint y rhywogaethau a gaiff eu dal trwy ddulliau hamdden neu anfasnachol wrth gyfrifo'r lefelau ar gyfer pysgota cynaliadwy gan bysgotwyr masnachol ac anfasnachol. Dylai ffigurau'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf arwain Llywodraeth Cymru wrth iddi bennu terfynau dalfa ar gyfer pysgotwyr anfasnachol.

**Cynllun trwyddedu i bysgotwyr masnachol**
Byddai cyflwyno cynllun trwyddedu cyfyngol ar gyfer rhai pysgodfeydd penodol i'w groesawu ar yr amod ei fod yn cyfrannu at gyrraedd lefelau'r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf.

**Maint lleiaf crancod glas**
Byddai sefydlu maint glanio lleiaf i grancod glas i'w groesawu a rhaid ei seilio ar wyddoniaeth gadarn.

11. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw sylwadau am y cwestiynau hyn, defnyddiwch y blwch hwn i'w nodi. Cadwch bob sylw ar wahân.

# Cyffredinol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i wahardd pysgota am gimychiaid wyog, wedi'u sgwrio, â hollt V neu wedi'u llurgunio. Mae cynnwys mabwysiadu Meintiau Glanio Lleiaf mwy o faint, gwahardd cludo cimychiaid sy'n llai na'r Maint Glanio Lleiaf a gwahardd glanio crafangau sydd wedi'u datgysylltu ar gyfer yr holl rywogaethau cramenogion yn yr ymgynghoriad hefyd yn ddatblygiad i'w groesawu o ran rheoli pysgodfeydd cregyn yn y parth 0-12 milltir forol yng Nghymru. Mae'r holl fesurau hyn yn dangos ymrwymiad i sicrhau stociau cynaliadwy o gramenogion Cymru.

Er bod y mesurau hyn yn ymddangos yn reddfol gywir h.y. bydd cynyddu'r Meintiau Glanio Lleiaf yn cynyddu'r stociau magu, yn aml nid yw'r dystiolaeth wyddonol ar gael i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n annog Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau ar sail data gwyddonol cadarn. Sylweddolwn hefyd bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau ynghylch rheoli pysgodfeydd fesul cam ac ar sail y data gorau sydd ar gael, gan fod adnoddau yn gyfyngedig.

**Cimychiaid**
Mae'r ddogfen '*Review of Evidence for Best Practice in Crustacean Fisheries Management in Wales*', *Woolmer et al* 2014, yn awgrymu mai 95mm yw'r maint aeddfedrwydd cymedrig ar arfordir Iwerddon, pum milimedr yn fwy na'r ffigur a gynigir yng Nghymru. Cydnabyddir bod yna ddiffyg gwybodaeth gymharol am fetrigau ar gyfer stociau cimychiaid Cymru ar hyn o bryd, ond dylai prosiect cyfredol Cronfa Bysgodfeydd Ewrop Ysgol Gwyddorau Eigion Bangor ddarparu gwybodaeth am faint cimychiaid Cymru pan fônt yn cyrraedd aeddfedrwydd. Os bydd angen, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n annog Llywodraeth Cymru i adolygu Maint Glanio Lleiaf cimychiaid eto ar sail y data gwyddonol hyn yn Rhan II o'i hymgynghoriad ar Reoli Cramenogion.

**Cimychiaid coch**
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n sylweddoli mai dim ond y rhan gyntaf o'r cynigion ar gyfer rheoli cramenogion yng Nghymru yw hon, a chefnogwn gynnig Llywodraeth Cymru i sefydlu Maint Glanio Lleiaf mwy o faint, sef 110mm, ar gyfer cimychiaid coch ledled Cymru, er nad yw wedi'i gefnogi gan dystiolaeth wyddonol glir. Mae hyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai angen Maint Glanio Lleiaf sydd cryn dipyn yn fwy er mwyn gwella gallu magu'r poblogaethau o gimychiaid coch yng Nghymru sydd wedi'u darwagio ar hyn o bryd[1].

Mae cimychiaid coch yn rhywogaeth â blaenoriaeth bioamrywiaeth, ac mae dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ei hun yn dweud bod y stociau presennol wedi gweld 'gostyngiad dramatig' ers y 1970au, a'u bod mewn cyflwr 'gweddilliol'. Ystyria Cyfoeth Naturiol Cymru y byddai'n synhwyrol o safbwynt pysgodfeydd cynaliadwy i atal pysgota yn y pysgodfeydd hyd nes y bydd y stociau'n ymadfer i fod yn boblogaeth hunangynhaliol, sefydlog, gan gyrraedd oed a strwythur hyd sy'n arwydd o stoc iach, a

---

[1] Leslie, B., & Shelmerdine, R. L. 2012 Management measures for self propagated future recovery of crawfish, *Palinurus elephas* in Welsh waters. Adroddiad contract gwyddonol CCG Rhif: 989

chynnwys mwy o unigolion mwy o faint a hŷn. Mae’r dull hwn o reoli pysgodfeydd yn gydnaws â’r ymrwymiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i reoli pysgodfeydd Cymru yn unol â lefelau’r Cynnyrch Cynaliadwy Mwyaf sy’n ofynnol o dan Gyfarwyddyd Fframwaith y Strategaeth Forol a’r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

Nid oes angen gwahardd glanio cimychiaid coch yn barhaol, ond nid yw parhau i ganiatáu i stoc gael ei physgota pan fydd mewn cyflwr gweddilliol, dirywiedig yn gydnaws â rheoli pysgodfeydd yn gynaliadwy. Mae gwerth uchel y rhywogaeth yn golygu ei bod yn ddeniadol yn economaidd i bysgotwyr barhau i’w physgota er mai dim ond ychydig a ddelir, sy’n golygu ei bod mewn perygl mwy fyth o orbysgota. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru’n annog Llywodraeth Cymru i reoli’r rhywogaeth hon yn rhagofalus yn y dyfodol, gan ei hamddiffyn rhag unrhyw bysgota hyd nes ein bod yn deall cyflwr stociau Cymru’n well. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru ymhellach i gasglu’r wybodaeth wyddonol i fod yn sail i unrhyw benderfyniadau ynghylch rheoli cimychiaid coch yng Nghymru.

Os na fydd Llywodraeth Cymru’n gweithredu ar y cyngor hwn, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn annog o leiaf ehangu’r mecanwaith ychwanegol o wahardd pysgota am gimychiaid wyog, wedi’u sgwrio, â hollt V neu wedi’u llurgunio fel ei fod yn cynnwys cimychiaid coch hefyd yn yr ymgynghoriad hwn.

12. Gallem gyhoeddi’r ymatebion i’r ymgynghoriad – ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai’n well gennych eich bod yn cadw’ch sylwadau’n gyfrinachol, ticiwch y blwch hwn

    **NA**